

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Cofnodion drafft 24-01 (20 Mawrth 2024)

Aelodau

Karen Lewis	Cadeirydd
Barbara Harrington	Aelod Anweithredol
Jack Evershed	Aelod Anweithredol
Jason Smith	Aelod anweithredol
John Baker	Aelod Annibynnol
Anthony Pritchard	Aelod Annibynnol

Mynychwyr

Alyson Thomas	Prif Weithredwr
Angela Mutlow	Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol
Alan Williams	Pennaeth Cyllid
Alun Lloyd	Arweinydd Llywodraethu Ariannol
Keith Chung	Rheolwr Seilwaith Digidol
Helen Goddard	Archwilio Cymru
Andrea Calise	Archwilio Mewnol
Paul Dalton	Pennaeth Archwilio Mewnol
Richard Bevan	Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro
Mark Weston	Rheolwr Atal Twyll Lleol, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru
Sharon Walters	Rheolwr Busnes (ysgrifenyddiaeth)

Croeso a chyflwyniadau, datganiadau o ddiddordeb, ymddiheuriadau,

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Estynnwyd croeso arbennig o gynnes i'r ddau aelod annibynnol newydd eu penodi, John Baker, ac Anthony Pritchard.

- 1.2 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau ac ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.

Cofnodion a chamau gweithredu a phenderfyniadau'r cyfarfod diwethaf

- 2.1 Nodwyd nad yw tudalen 5 o'r cofnodion yn rhoi enw llawn y pwyllgor ac y dylent ddarllen y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn amodol ar y diwygiad hwn, cytunwyd ar gofnodion, camau gweithredu a phenderfyniadau'r cyfarfod diwethaf.

A24-01-01: Diwygio'r cofnodion i adlewyrchu enw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn llawn. **Gweithred: Sharon Walters**

Materion yn codi

- 3.1 Nododd y pwyllgor fod traciwr argymhellion archwilio, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i fonitro argymhellion archwilio mewnol ac allanol, wedi'i gynnwys yn yr adroddiad cyllid. Cytunwyd y byddai hwn yn cael ei boblogi'n llawn, ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn rheolaidd fel rhan o'i adroddiadau safonol.
- 3.2 Cofnod 6.1 – Nodwyd y dylai hwn ddarllen 'mae pob maes wedi cael sylw ers hynny'.
- 3.3 Rhoddwyd diweddariad recriwtio i'r pwyllgor. Mae penodiad diweddar wedi'i wneud i rôl Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyllid, a'r disgwyl oedd y byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn ei swydd yn gynnar ym mis Gorffennaf. Roedd rôl y Rheolwr Llywodraethu yn cael ei rhoi ar y rhestr fer ar hyn o bryd ac roedd yn debygol o gael ei phenodi iddi ym mis Ebrill. Roedd penodiad wedi'i wneud i swydd Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifydd cymwys, a rhagwelwyd y byddai'n dechrau gyda Llais ym mis Gorffennaf 2024.

- 3.4 Hysbyswyd y pwyllgor fod fframwaith sicrwydd bwrdd cychwynnol wedi'i ddatblygu gan y cyn Pennaeth Llywodraethu. Byddai'r gwaith hwn yn awr yn cael ei flaenoriaethu a'i ddatblygu ymhellach gan Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Dros Dro. Y bwriad oedd cyflwyno fframwaith sicrwydd drafft i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin i geisio barn a chymeradwyaeth y pwyllgor. Fodd bynnag, byddai ymgysylltu ag aelodau'r pwyllgor yn digwydd wrth ddatblygu.
- 3.5 Roedd y pwyllgor yn cefnogi'r ymagwedd hon ac yn rhagweld y byddai'n cefnogi ac yn arwain adrodd i'r pwyllgor a'r Bwrdd.

A24-01-02: Cytunwyd y byddai adroddiad tracio argymhellion archwilio yn cael ei lenwi'n llawn a'i gyflwyno i'r pwyllgor yn rheolaidd fel rhan o'i adroddiadau safonol.

Adroddiad diweddarau'r Gwasanaeth Atal Twyll Lleol

- 4.1 Croesawodd y Cadeirydd Mark Weston, Rheolwr Atal Twyll Lleol o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'r cyfarfod.
- 4.2 Adroddodd Mark ei fod wedi cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol Llais a Chyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Mai 2023 i drafod y risgiau ac anghenion sefydliadol. Roedd hyn er mwyn darparu darpariaeth gwrth-dwyll gymesur a oedd yn briodol ar gyfer Llais. Yn y cyfarfod hwn cytunwyd bod lleiafswm o 5 diwrnod gwaith yn ddigon i gyflawni'r canlynol:
- Cynhyrchu polisi twyll, llwgrwobrwyo a llygredd.
 - Sicrhau bod gan y sefydliad bolisi a chofrestr ddigonol o roddion a lletygarwch a gwrthdaro buddiannau.
 - Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll cychwynnol.
 - Cyflwyno sesiwn hyfforddi ymwybyddiaeth o Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd Cychwynnol i'r holl staff.
 - Darparu ymgynghoriad a thrafodaeth fer i asesu risgiau twyll y sefydliad.

- Darparu cyngor ar y camau i'w cymryd os oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch troseddau economaidd wrth iddynt godi.
- Cynhyrchu 2 gylchlythyr ymwybyddiaeth twyll a fyddai'n bwrpasol i Llais.
- Cydgysylltu â gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol pe bai pryderon neu risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn codi.
- Mynychu un Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bob blwyddyn i ddarparu adroddiad a chynghori ar faterion trosedd economaidd.

4.3 Roedd cyfanswm o 5 diwrnod wedi'u darparu hyd yn hyn a byddai angen trafodaethau ar sut i reoli hyn yn y dyfodol.

4.4 Nododd y pwyllgor fod canlyniadau'r arolwg twyll yn dangos mai dim ond 2 aelod o staff oedd yn debygol o adrodd am amheuaeth o dwyll. Gofynnodd y pwyllgor a oedd angen gwneud mwy i wella hyn. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai pob cyfarwyddwr rhanbarthol yn trafod y polisi gyda'u staff i ddweud bod cymorth ar gael ar faterion yn ymwneud â thwyll.

4.5 Nodwyd pe byddai angen gwaith ychwanegol, y gellid cynyddu'r nifer o ddyddiau hyd at 10 diwrnod, pe bai angen. Roedd angen trafodaethau pellach i bennu proffil ymgysylltu ar gyfer blwyddyn dau.

Adolygu gweithdrefnau rheolaeth ariannol

5.1 Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor fod y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi'u hadolygu gan Tîm Arwain ym mis Mawrth. Cytunodd Tîm Arwain ar y newidiadau arfaethedig a fyddai'n caniatáu i Reolwyr Gweithrediadau Rhanbarthol gymeradwyo taliadau (hyd at swm penodol) a threuliau gwirfoddolwyr. Byddai hyn yn helpu i gyflymu'r broses dalu. Er mwyn helpu i gyflymu hyn, cytunodd y pwyllgor y gellid cael cymeradwyaeth y tu allan i'r pwyllgor a chyn cyfarfod mis Mehefin.

Cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol yn dosbarthu'r newidiadau arfaethedig i'r aelodau i'w hystyried a'u cymeradwyo cyn mynd i'r Bwrdd i'w cymeradwyo ym mis Ebrill.

A24-01-03: Y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol i gylchredeg y newidiadau arfaethedig i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i aelodau i'w hystyried a'u cymeradwyo y tu allan i'r pwyllgor cyn mynd gerbron y Bwrdd i'w cymeradwyo ym mis Ebrill.

Cofrestr risg corfforaethol

- 6.1 Nodwyd bod y cyn Pennaeth Llywodraethu wedi nodi rhai meysydd gwaith blaenoriaeth o fewn y gofrestr risg gorfforaethol. Byddai canllawiau newydd yn cael eu cynhyrchu ar sut i reoli'r maes gwaith hwn ar draws gweithrediadau'r sefydliad.
- 6.2 Nodwyd bod y ddogfen yn ymddangos yn statig mewn rhai ardaloedd. Cydnabuwyd bod gwaith wedi'i wneud o amgylch staffio a sgiliau ac ar ddatblygu strwythur trefniadol sy'n gweithio i Llais. Roedd angen gwneud rhagor o waith i nodi'r hyn a oedd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad oedd wedi gweithio'n dda yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu.
- 6.3 Nododd y pwyllgor y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud ar y gofrestr risg corfforaethol ac y byddai adroddiad lefel uwch ar ei newydd wedd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin.
- 6.4 Cytunodd y pwyllgor y dylai Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro ystyried a oedd angen cofrestrau risg ar wahân ar gyfer seiberddiogelwch a TG. Byddai adroddiad yn cael ei ddrafftio a'i gyflwyno i'r pwyllgor am sylwadau.
- 6.5 Cytunodd y pwyllgor y dylid ystyried ffordd wahanol o sgorio risgiau a oedd yn cyd-fynd â'r archwaeth risg wrth symud ymlaen fel rhan o'r gwaith adolygu.

A24-01-04: Ysgrifennydd y Bwrdd /Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro i ystyried a oes angen cofrestrau risg ar wahân ar gyfer seiberddiogelwch a TG.

A24-01-05: Ysgrifennydd y Bwrdd/Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro i ystyried ffordd wahanol o sgorio risgiau sy'n cyd-fynd â'r archwaeth risg wrth symud ymlaen fel rhan o'r gwaith adolygu.

Adroddiad Cyllid

7.1 Nododd y pwyllgor mai pwrpas yr adroddiad oedd amlinellu i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y sefyllfa ariannol ar 29 Chwefror 2024 (mis 11).

7.2 Ym mis 11 roedd y perfformiad ariannol hyd yma yn cyfateb i danwariant o £607k yn erbyn cyllidebau dirprwyedig (roedd hyn yn gynnydd ar danwariant mis 9 hyd yma o £572k), cynnydd o danwariant o £100k yn y mis. Y prif amrywiadau yn y perfformiad hyd yma oedd:

- Tanwariant Tâl
- Tanwariant Costau Teithio
- Costau Swyddfa

Bu heriau recriwtio sylweddol gyda llawer o swyddi newydd yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i'w llenwi. Roedd llawer i fod e'u penodi o fis Tachwedd ymlaen ac er bod sawl swydd newydd wedi'u llenwi, ni ddechreuodd 7 tan rhwng Ionawr a Mawrth.

7.3 Ar hyn o bryd roedd tanwariant rhagamcanol o £140k, ond roedd risg y gallai hyn gynyddu. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â'r arian a ddyrannwyd ar gyfer prosiectau, marchnata ac adolygiadau llywodraethu, yn ogystal ag ar gyfer TGCh.

7.4 Fel y nodwyd yn y Cynllun Ariannol roedd angen cyllid ychwanegol i reoli arian parod o fewn terfynau goddefiant. Cadwyd unrhyw gymorth grant heb ei wario bob mis ac ar ddiwedd y flwyddyn rhaid ei gadw o fewn 4% a 2% yn y drefn honno o gyfanswm y cymorth

grant arian parod a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn honno. Ar ddiwedd mis Chwefror roedd balans arian parod y banc yn £594k, sef 7.7% o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer eleni. Roedd llif arian wedi'i fonitro'n agos ac roedd anfonebau'n cael eu dilyn yn ddyddiol i geisio lleihau'r lefelau gofynnol.

- 7.5 Nododd y pwyllgor fod papur yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ar gyfer Llywodraeth Cymru ar brydlesi llety Llais. Byddai Archwilio Cymru yn ystyried y papur drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Gofynnodd yr Arweinydd Llywodraethu Ariannol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd adolygu'r papur cyn ei gyflwyno. Cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r pwyllgor am sylwadau.
- 7.6 Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd y llythyr dyrannu cyllideb ar gyfer 2024-2025 wedi dod i law eto. Byddai hyn yn cael ei amlygu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.
- 7.7 Nododd y pwyllgor fod Gweithgor Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon mewnol wedi'i sefydlu i reoli datblygiad a chynhyrchiad Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llais 2023/24. Byddai cwmpas yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn llawer ehangach nag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23. Roedd yn gyfle i Llais adrodd ar y gwahaniaeth a'r effaith a wnaed o dan ei gylch gorchwyl a'i gyfrifoldebau ehangach.
- 7.8 Disgwylir datganiad drafft erbyn diwedd mis Awst, a'r bwriad oedd cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg mewn pryd ar gyfer cyfarfod mis Mehefin. Cytunwyd os nad oedd hyn yn bosibl, efallai y bydd angen cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yng nghanol mis Gorffennaf.

A24-01-06: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i adolygu'r papur ar y datganiad drafft cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r pwyllgor am sylwadau.

A24-02-07: Ystyried cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yng nghanol mis Gorffennaf.

Adroddiad diweddarau Gwasanaethau Archwilio Mewnol (GAM).

- 8.1 Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad cynnydd yn rhoi'r sefyllfa bresennol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch y gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol ar 11 Mawrth 2024.
- 8.2 Ers cyfarfod pwyllgor mis Tachwedd, dywedwyd wrth yr aelodau bod un adroddiad drafft wedi'i gyhoeddi a bod y gwaith maes ar gyfer y tri adolygiad arall a nodwyd yn y cynllun archwilio mewnol bellach wedi'i gwblhau.
- 8.3 Ym mis Ionawr cyflwynwyd trosolwg o'r swyddogaeth Archwilio Fewnol i gyfarfod Tîm Arwain. Cyfarfu Archwilio Mewnol hefyd â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod deialog barhaus.
- 8.4 Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r cynllun ar gyfer 2024-2025 yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mehefin. Cytunwyd pe bai angen cyfarfod yn gynharach na hyn, y byddai dyddiad arall yn cael ei drefnu.

A24-01-08: Pe bai angen cyfarfod i ystyried y cynllun ar gyfer 2024-2025 yn gynharach na mis Mehefin, byddai dyddiad arall yn cael ei drefnu.

Adroddiad diweddarau Archwilio Cymru (AW).

- 9.1 Dywedodd Archwilio Cymru wrth y pwyllgor fod nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal mewn perthynas ag archwiliad 2023-2024. Byddai'r cynllun archwilio yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin.
- 9.2. Nododd y pwyllgor fod y cyfraddau ffioedd archwilio wedi cynyddu 6.4% ar gyfartaledd yn 2024-25. Bydd y ffi archwilio ar gyfer archwiliad cyfrifon 2023-24 yn cael ei chynnig yn dilyn y cynllunio cychwynnol a'r asesiad risg a chaiff ei nodi yng Nghynllun Archwilio 2024.

9.3 Amlinellwyd i'r pwyllgor feysydd eraill o weithgaredd ac allbwn Archwilio Cymru a allai fod o ddiddordeb i Llais. Y rhain oedd:

- O ymladd tân i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru
- Trefniadau llywodraethu yn ymwneud ag dadl cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru
- Cydbwyllgorau Corfforaethol - sylwadau ar eu cynnydd

Adroddiadau rheolaidd

10.1 Wrth bennu ei raglen waith amlinellol ar gyfer 2023-2024, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cael adroddiadau rheolaidd ar y meysydd a ganlyn:

- Anrhegion, gwobrau a lletygarwch
- Datganiadau o ddiddordeb
- Pryderon a chwynion

10.2 Nid oedd y cofnod rhoddion, gwobrau a lletygarwch yn nodi unrhyw feysydd neu ddigwyddiadau arwyddocaol yn y cyfnod rhwng 1 Hydref 2023 a 12 Mawrth 2024. Yn ystod y cyfnod hwn bu 26 o wahanol achlysuron pan gynigiwyd rhoddion neu letygarwch. Bydd y sefydliad yn parhau i fonitro sut y rheolwyd hyn bob chwarter.

10.3 Nododd y pwyllgor y cofnod datganiadau buddiannau wedi'i ddiweddarau ar gyfer staff ac aelodau'r bwrdd. Er mwyn diogelu cyfrinachedd, dilëwyd enwau staff. Gofynnodd y Cadeirydd am gael cynnwys 2 ddatganiad personol o fuddiant newydd ar y gofrestr a chytunodd i anfon y rhain at Ysgrifennydd Bwrdd/Pennaeth Llywodraethu Dros Dro i weithredu arnynt.

10.4 Roedd Llais wedi derbyn 6 cwyn ar draws rhanbarthau Llais ers 1 Hydref 2023. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â chefnogaeth eiriolaeth.

10.5 Cytunwyd y byddai colofn ychwanegol yn cael ei hychwanegu at y log cwynion i roi diweddariad i'r pwyllgor ar y gŵyn, gan amlygu unrhyw dueddiadau amlwg ac i benderfynu a oedd ymddygiad sefydliadol yn newid.

10.6 Cytunodd y pwyllgor y gellid lleihau lefel y manylion a ddarperir yn chwarterol wrth symud ymlaen a chytunwyd y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd/Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro yn edrych ar sut yr adroddir ar hyn i gyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymwyd y gallai rhoddion a lletygarwch fod yn rhan o'r system werthuso i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r polisiau a'u cyfrifoldebau. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd/Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro yn parhau i fonitro hyn wrth symud ymlaen.

A24-01-0 9: Cytunwyd i ychwanegu colofn ychwanegol at y log cwynion i roi diweddariad ar y gŵyn, amlygu unrhyw dueddiadau amlwg ac i benderfynu a yw ein hymddygiad yn newid.

A24-01-10: Y Cadeirydd i gynghori Ysgrifennydd y Bwrdd/Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro ar 2 ddatganiad o fuddiant newydd i'w cynnwys ar y gofrestr datganiadau o fuddiant.

Adroddiad rheoli gwybodaeth a diogelwch gan gynnwys adroddiad gwirio iechyd TG a seiberddiogelwch

11.1 Cyflwynwyd adroddiad Gwiriad Iechyd TG i'r pwyllgor.

11.2 Nodwyd bod y Rheolwr Seilwaith Digidol mewn trafodaethau gyda Cyber Crowd i ddechrau Tystysgrif Cyber Essentials Plus cyn gynted â phosibl.

11.3 Roedd Llais wedi gweld mewnlifiad o e-byst sgâm oportiwistaidd. Roedd yn ymddangos bod y rhain yn dod gan uwch aelod o staff, ond nid oeddent yn tarddu o gyfeiriad e-bost swyddogol Llais. Yn ffodus, roedd staff wedi bod trwy hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch, ac roeddent wedi gallu gwahaniaethu rhwng negeseuon e-bost dilys a thwyllodrus.

11.4 Dywedwyd wrth y pwyllgor fod cynlluniau ar y gweill i recriwtio aelod dros dro o staff i gefnogi'r system CRM. Swydd dros dro fyddai hwn nes i'r swydd barhaol gael ei llenwi. Y gobaith hefyd oedd recriwtio i rôl weinyddol TG i ddarparu cymorth ychwanegol i'r tîm.

11.5 Cafodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y system CRM. Roedd yr holl staff bellach yn defnyddio'r system, ond roedd yn amlwg bod staff eiriolaeth yn ddefnyddwyr mwy hyderus oherwydd eu bod yn gyfarwydd â'r system Datix flaenorol. Roedd Cwestiynau Cyffredin yn cael eu datblygu ar gyfer staff, ochr yn ochr â nifer o weithdai.

Blaenraglen waith y Pwyllgor 2024-2025

12.1 Nododd y pwyllgor y byddai angen datblygu'r rhaglen waith ar gyfer 2024-2025 ymhellach yn unol â thrafodaethau'r pwyllgor wrth symud ymlaen.

12.2 Nodwyd bod y cyfrifon archwiliedig i'w hystyried yng nghyfarfod mis Medi, gan ei bod yn annhebygol y byddai'r cyfrifon yn barod erbyn hyn. Awgrymwyd efallai y byddai angen trefnu cyfarfod ychwanegol cyn cyfarfod mis Rhagfyr. Cytunwyd y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd/Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro yn edrych ar amserlen y cyfarfodydd i benderfynu a yw'r bwrdd a'r pwyllgorau'n cyfarfod ar yr amser cywir.

A24-01-11: Ysgrifennydd y Bwrdd/Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro i edrych ar amserlen y cyfarfodydd i benderfynu a yw'r bwrdd a'r pwyllgorau yn cyfarfod ar yr amser cywir.

Unrhyw fusnes arall

13.1 Dywedwyd wrth y pwyllgor y byddai Safonau'r Gymraeg yn dod i rym ar gyfer Llais ar 1 Ebrill. Roedd gwaith ar y gweill i sicrhau bod Llais yn cael ei baratoi. Byddai diweddariad pellach yn cael ei roi i'r pwyllgor ym mis Mehefin.

13.2 Dywedwyd wrth y pwyllgor y byddai 2 ddeddf newydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2024. Byddai Absenoldeb Gofalwyr Di-dâl yn rhoi hawl i weithwyr gael absenoldeb di-dâl i roi neu drefnu gofal i ddibynnydd.

Ailgylchu yn y Gweithle - byddai'n dod yn gyfraith i bob busnes, elusen a sefydliad sector cyhoeddus ddioli eu gwastraff i'w ailgylchu. Roedd Llais ar hyn o bryd yn ceisio sicrwydd gan ei swyddfeydd rhanbarthol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn o'r dyddiad hwn. Byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod mis Mehefin.

A24-01-12: Byddai diweddariad pellach ar Safonau'r Gymraeg yn cael ei ddarparu i'r pwyllgor ym mis Mehefin.

A24-01-13: Byddai diweddariad pellach ar y deddfau gwyliau di-dâl ac ailgylchu i ofalwyr yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod mis Mehefin.